# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Mehefin 2020

Amser: 09.30 - 11.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6348

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Ms Sarah Nason (Cynghorwr Arbenigol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)547 – Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)549 – Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn ei drafod ymhellach pan ddaw'r ymateb gan Lywodraeth Cymru i law.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(5)531 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020

O dan Reol Sefydlog 17.24A, cafwyd datganiad o fuddiant gan Suzy Davies AS.

Trafododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth a gofynnodd am eglurhad ynghylch mater yn ymwneud â llety gweithwyr amaethyddol.

### 4.2 SL(5)540 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Trafododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth.

Nododd y Cadeirydd sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor a drefnwyd gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Mehefin, mewn perthynas â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020, fel y'u diwygiwyd.

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 5.1 WS-30C(5)160 - Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

## 6 Papur(au) i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd - trafod yr ohebiaeth

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a thrafododd y materion i'w cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Tân

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a bydd yn trafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 10 SICM(5)28 - Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno. Nododd yr Aelodau y byddai'r adroddiad yn cael ei osod maes o law.

## 11 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru – briff gan gynghorydd arbenigol y Pwyllgor

Rhoddodd cynghorydd arbenigol y Pwyllgor gyflwyniad i'r Aelodau ynghylch y gwaith y mae wedi'i wneud fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor.

## 12 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf

Trafododd y Pwyllgor y papur briffio gan ymchwilwyr y Senedd.

**Nododd yr Aelodau fod y cynghorwyr cyfreithiol wedi darparu eglurhad ynghylch Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2020, fel y gofynnwyd yn y cyfarfod ar 18 Mai.**